

Cylchlythyr demograffeg

Llywodraeth Cymru, Mawrth 2019

Mudo rhyngwladol tymor hir

Ym mis Chwefror cyhoeddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) yr [Adroddiad Ystadegau Mudo Chwarterol](#) (MSQR). Mae'r MSQR yn dwyn ynghyd ystadegau ar fudo sy'n cael eu cyhoeddi gan y Swyddfa Gartref, yr Adran Gwaith a Phensiynau a'r ONS.

Yn ôl amcangyfrifon yr [Arolwg Teithwyr Rhyngwladol](#) o fudo rhyngwladol hirdymor (hynny yw, dros 12 mis), roedd 5,000 o fewnfudwyr o'r UE yng Nghymru yn 2017 ac 16,000 o fewnfudwyr o wledydd o'r tu allan i'r UE. Roedd 3,000 o bobl wedi allfudo i wledydd yr UE a 4,000 wedi allfudo i wledydd y tu allan i'r UE.

Ystadegau poblogaeth a mudo'r SYG transformation journey: a research engagement report

Ym mis Ionawr cafwyd [diweddariad](#) gan yr SYG ar eu GSS [Rhaglen Trawsnewid Ystadegau Mudo](#) GSS, sy'n adeiladu ar yr ymchwil flaenorol a wnaethpwyd drwy hyn a phrosiect [Cyfrifiad Data Gweinyddol](#) yr SYG.

Mae'r adroddiad hwn yn dwyn ynghyd waith trawsnewid ar boblogaeth a mudo, adeiladu ar wybodaeth ac ymchwil sut y gellir defnyddio ffynonellau data gweinyddol sydd ar gael i'r SYG, ynghyd ag arolygon, i wella sut maent yn mesur stoc a llif poblogaeth yn y dyfodol.

Papur gwyn Cyfrifiad 2021, helpu i lunio ein dyfodol: cyfrifiad o boblogaeth a thai yng Nghymru a Lloegr.

Ym mis Rhagfyr, cyhoeddodd Llywodraeth y DU [Bapur Gwyn Cyfrifiad 2021](#). Mae'r Papur Gwyn yn cyflwyno cynigion manwl Awdurdod Ystadegau'r DU ar gyfer Cyfrifiad 2021 yng Nghymru a Lloegr.

Yn amodol ar gymeradwyaeth Senedd y DU, cynigir fod y cyfrifiad nesaf o'r boblogaeth yn cael ei gynnal yng Nghymru a Lloegr ar **21 Mawrth 2021**.

Mae'r Papur Gwyn yn disgrifio'r nodau strategol ar gyfer y cyfrifiad, yn egluro'r angen amdano, yn nodi'r cynnwys a sut y bydd yn cael ei gynnal, ac mae'n ymdrin â materion o ddiddordeb i'r cyhoedd fel diogelwch data a chyfrinachedd. Mae'r Papur Gwyn hefyd yn nodi cynigion Awdurdod Ystadegau'r DU ar gyfer dyfodol ystadegau poblogaeth ar ôl 2021.

Ymarfer ar gyfer Cyfrifiad 2019 yng Ngheredigion

Fel rhan o'r paratodau ar gyfer Cyfrifiad 2021, bydd yr SYG yn ymarfer ar gyfer y [cyfrifiad yn ystod hydref 2019](#).

Bydd yr ymarfer yn digwydd mewn pedair ardal awdurdod lleol a ddewiswyd a bydd pob aelwyd yn yr ardaloedd hyn yn cael eu gwahodd i gymryd rhan drwy lenwi holiadur yr ymarfer ar gyfer y cyfrifiad. Mae'r ymarfer yn ffordd bwysig i alluogi'r SYG i brofi bod eu holl brosesau, systemau a gwasanaethau'n effeithiol a'u bod yn gweithio fel y dylent cyn Cyfrifiad 2021.

Yr ardal awdurdod lleol yng Nghymru sydd wedi'i dewis yw Ceredigion. Yr ardaloedd sydd wedi'u dewis yn Lloegr yw Caerliwelydd, Hackney a Tower Hamlets.

Sioe deithiol Cyfrifiad 2021 yr SYG

Bydd y SYG yn cynnal pum sioe deithiol ranbarthol yn ystod mis Mawrth 2019. Yn y sioeau hyn byddant yn rhannu'r newyddion diweddaraf am Gyfrifiad 2021, yn ogystal â diweddariadau mwy cyffredinol ar Boblogaeth a Thrawsnewid Polisi Cyhoeddus.

Bydd y sioeau teithiol yn gyfle arall i ddefnyddwyr i glywed am argymhellion ar bynciau i'w cynnwys yng Nghyfrifiad 2021. Bydd yr SYG yn rhannu canfyddiadau o'r ymgynghoriad ar allbynnau'r cyfrifiad a gynhaliwyd y llynedd, a chynlluniau ar gyfer gweithredu yn y maes, cymorth i'r cyhoedd ac ymgysylltu â rhanddeiliaid.

Lleoliad a dyddiadau'r sioeau teithiol

Bryste: Mawrth 12 Mawrth 2019

Leeds: Mawrth 19 Mawrth 2019

Nottingham: Mercher 20 Mawrth 2019

Wrecsam: Iau 21 Mawrth 2019

Llundain: Mercher 27 Mawrth 2019 [DIM TOCYNNAU AR ÔL]

Gallwch archebu lle drwy [Eventbrite](#). Darperir cinio a lluniaeth.

Am ragor o wybodaeth, e-bostiwch tîm Partneriaethau Cyfrifiad 2021 yn 2021Census.LA.Liaison@ons.gov.uk.

Arolwg defnydd iaith

Yn ddiweddar bu Llywodraeth Cymru'n ymgysylltu â defnyddwyr ynglŷn â'r hyn yr hoffent ei weld yn yr [Arolwg Defnydd Iaith](#) nesaf. Os oes gennych chi ddiddordeb mewn data am ddefnydd o'r Gymraeg ac nad ydych wedi cael cyfle eto i ymateb i'r ymgysylltiad â defnyddwyr, cysylltwch â DatalaithGymraeg@llyw.cymru gyda'ch sylwadau.

Amcangyfrifon o'r angen am dai yng Nghymru ar lefel genedlaethol a rhanbarthol (sail-2018)

Ddydd Mercher 30 Ionawr cyhoeddodd Llywodraeth Cymru [erthygl ystadegol](#) sy'n cyflwyno amcangyfrifon sy'n seiliedig ar 2018 o'r angen ychwanegol cyffredinol am dai yng Nghymru rhwng 2018/19 a 2037/38. Mae amcangyfrifon o'r angen am dai'n allweddol i gynllunio ar gyfer y dyfodol ar lefel genedlaethol a rhanbarthol a byddant yn cael eu defnyddio fel sail i'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ac i ddatblygu polisi tai.

Amcangyfrifir y bydd angen ar gyfartaledd, rhwng 6,700 a 9,700 o unedau tai ychwanegol bob blwyddyn yn ystod y pum mlynedd cyntaf gydag amcangyfrif canolog o 8,300 (mae amcangyfrifon canolog o'r angen am dai'n cael eu cyfrifo o brif amcanestyniadau aelwydydd yn seiliedig ar 2014). Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys cyfartaledd blynyddol o 1,100 o unedau tai ychwanegol i glirio'r rhai ag angen presennol heb ei ddiwallu.

Cyswllt

Ffôn 0300 025 0373

E-bost: Ystadegau.Poblogaeth@llyw.cymru